

ASTUDIAETH ACHOS 3: BYWYDAU GWELL: CYDGYNHYRCHU CYMORTH ANABLEDDAU DYSGU YNG NGWENT

CYNNWYS

1. Cefndir: pwy oedd yn rhan ohono
2. Nodweddion y prosiect
3. Beth weithiodd yn dda? Yr ymchwil yn enwedig
4. Y 5 thema allweddol
5. Beth a ddysgwyd?
6. Canlyniadau'r prosiect
7. Casgliad

1. CEFNDIR: PWY OEDD YN RHAN OHONO

Prif ysgogiad prosiect Bywydau Gwell oedd bod gan bobl ag anabledd dysgu yn gyffredinol fywydau gwaeth. Arweinir y prosiect gan bobl sydd â phrofiad personol o anabledd dysgu; sydd am ystyried ffyrdd o newid eu bywydau. Gan gydnabod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 fe wnaethant ystyried gwneud pethau'n wahanol ar sail ranbarthol (ledled Gwent) o fewn gwasanaethau i oedolion ag anabledd dysgu. Roedd cred a phryder i ddechrau bod y Ddeddf yn golygu colli gwasanaethau yn hytrach na'u creu gan ac i bobl sydd angen cymorth drwy gydgyhyrchu. Er bod fersiynau hawdd eu darllen ynglŷn â'r Ddeddf ar gael, teimlwyd nad oedd pobl ag anabledd dysgu yn gwybod llawer am y Ddeddf a'r cyfleoedd y byddai'r Ddeddf yn eu darparu. Mewn ymateb i'r Ddeddf, crëwyd swydd Rheolwr Arloesi a Datblygu: Modelau Gwasanaethau Amgen, a ariannwyd gan y Gronfa Gofal Integredig i ddechrau'r broses ymchwilio. Dechreuodd y Rheolwr weithio yn gyntaf yn Nhorfaen ac yna ledled Gwent, gan droi'n broses gydgyhyrchol mewn ysbryd ac yn ymarferol i ddatblygu'r hyn a oedd yn bwysig i bobl yn y rhanbarth drwyddo draw. Daeth y prosiect â grwpiau at ei gilydd o ymgyrch Pobl yn Gyntaf ledled Gwent, yn enwedig Pobl yn Gyntaf Torfaen a Barod CIC i fwrw'r prosiect yn ei flaen. Roedd yn bwysig bod y rheini a oedd yn rhan o'r prosiect yn deall cysyniad cydgyhyrchu a bod ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth yn '*risiau'n is i lawr yr ysgol cyfranogî*'. Pobl ag anabledd dysgu oedd yr ysgogiad canolog dros newid drwy gydol y prosiect, gan holi pobl eraill beth yr hoffent ei weld yn digwydd, a'r mathau o wasanaethau a oedd eu hangen yn y rhanbarth i ddiwallu eu hanghenion. **Cysylltodd y Rheolwr â chynrychiolwyr Pobl yn Gyntaf Torfaen, ond roedd nifer o ffactorau a oedd yn bwysig i sicrhau eu cefnogaeth a'u hamser:**

- **Bod ar delerau cyfartal â swyddogion y cyngor.**
- **Cael eu talu am y gwaith y gofynnwyd iddynt ei wneud er budd Pobl yn Gyntaf Torfaen.**
- **Cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniad.**
- **Gwneud penderfyniadau mewn grŵp a chael cymorth i gyflawni eu rôl yn y prosiect.**

2. NODWEDDION Y PROSIECT

- Peidio â rhagdybio beth sy'n bwysig i bobl a pha wasanaethau a oedd angen eu comisiynu.
- Talu pobl i gynnal yr ymchwil i'r hyn sy'n bwysig i bobl ag anabledd dysgu.
- Cael llais cyfartal ynglŷn â'r ffordd y byddai'r arian a enillwyd gan aelodau o Pobl yn Gyntaf Torfaen yn cael ei wario.
- Peidio â dibynnu ar ewyllys da, ond bod ewyllys da yn bwysig i ddatblygu ymddiriedaeth yn y berthynas rhwng pobl.
- Gwybod pam mae'n bwysig cynnal yr ymchwil: ei harwyddocâd i'r rheini a oedd yn cyfweld a'r rheini a oedd yn cael eu cyfweld.
- Gweithio gyda chryfderau pobl a chydabod pan nad oedd gallu nac amser i gyfrannu.

3. BETH WEITHIODD YN DDA? YR YMCHWIL YN ENWEDIG

'Rhannwyd y prosiect hwn yn llwyr' ac nid oedd yn berchen i neb; roedd yn gasgliad o bobl o sawl sector a oedd yn ceisio darganfod beth oedd ar bobl ei eisiau drwy eu holi'n uniongyrchol er mwyn *'gweld ble y gallwn wneud gwahaniaeth....does dim hunanfaldher na phwyslais ar fudiadau unigol, dim ond beth fydd yn llwyddo'* i ddiwallu anghenion cymorth pobl ag anableddau dysgu yn y dyfodol. O'r cychwyn cyntaf roedd yn amlwg bod y Rheolwr Arloesi a Datblygu yn gydgyhyrchedd. Lledaenodd ei frwdfrydedd ac roedd pobl yn ymddiried ynddo, gan alluogi cynrychiolwyr Pobl yn Gyntaf Torfaen i fynd ati i ddarganfod beth oedd ar bobl eraill ag anabledd dysgu ei eisiau. Y ffactor mwyaf hanfodol oedd yr aethpwyd ati mewn ffordd wahanol i fod yn gynhwysol; bod yna gydraddoldeb a bod y rheini a fyddai'n ymchwilio yn cael eu talu am eu hamser fel eu cydweithwyr o'r cyngor a'r trydydd sector, a dyma oedd nodwedd fwyaf neilltuol y prosiect hwn. Roedd llais cyfartal gan bawb yn y ffordd o wario'r gyllideb a oedd ar gael.

Gweithiodd y broses ymchwilio yn dda drwy'r canlynol:

- Dylunio proses ymchwilio hygyrch, a chytuno arni.
- Datblygu'r cwestiynau i'w gofyn i bobl ac ymgynghori ar y cwestiynau hynny â phobl a grwpiau a mudiadau eraill.
- Gweithio fel rhan o dîm: Gweithio gyda sgiliau a chryfderau allweddol pobl i gasglu, cyfuno a dadansoddi'r canlyniadau gyda'i gilydd. Aelod o Pobl yn Gyntaf Torfaen a wnaeth y gwaith codio cychwynol yn lle bod rhywun arall yn dadansoddi'r data yr oeddynt wedi'i gasglu.
- Roedd y cyfweilwyr yn adnabod llawer o'r bobl yr oeddynt yn eu cyfweld a oedd o gymorth i bobl ymateb, yn ddiuedd, gan y cytunwyd ar y cwestiynau drwy ymgynghori.
- Peidio â rhagdybio beth oedd ar bobl ei eisiau.
- Tra nad atebodd pawb y cwestiynau i gyd, cymerodd dros 100 o bobl ran.
- Cytuno ar y cyd ar y themâu a'r prosiectau i'w dylunio o amgylch y themâu hynny.
- Creu posteri yn amlinellu'r themâu allweddol fel bod pawb yn deall pob thema.
- Cynnal cynhadledd ar y 5 thema i ystyried syniadau pellach.
- Peidio â gadael i'r ymchwili *'droi'n adroddiad angof'* ac aros yn segur ar y silff.



Cliciwch ar y ddolen i gael at y PDF

Mae [Co-Production Story](#): 'Funny Times' yn amlinellu pwy oedd yn y prosiect ac yn egluro bod y prosesau cydgynhyrchu yr aethant drwyddynt yn un o allbynnau'r prosiect.

4. Y 5 THEMA ALLWEDDOL: BYWYDAU GWELL

Ffurfiwyd 5 thema allweddol o'r dystiolaeth a ddaeth o'r cyfweiliadau, gan ddatblygu prosiectau penodol o'r themâu hyn, yn seiliedig ar ba gymorth neu wasanaethau yr hoffai pobl eu gweld. Roedd prosiect Bywydau Gwell am i bobl wybod y canlynol:



Cwrdd ag eraill

- Fy mywyd i yw e': **Gadewch i mi fwrw ymlaen ag e', fe wna'i ymdopi â beth bynnag ddigwyddith.**
- Fy mywyd i yw e': **Fy arian i yw e', gallaf ei ddefnyddio fel y mynnaf.**
- Fy mywyd i yw e': **Dwi eisiau swydd a chael fy nhalu.**
- Fy mywyd i yw e': **Dwi eisiau mynd allan 'da ffrindiau.**
- Fy mywyd i yw e': **Ry' ni eisiau bod ar ein pen ein hun weithiau.**

Amser ar fy mhen fy hun neu â ffrindiau



Yn dilyn hyn, cynhaliwyd cynhadledd wedi'i dylunio a'i hwyluso gan aelodau o gymuned Pobl yn Gyntaf yn seiliedig ar y 5 thema allweddol. Gofynnwyd i bobl wneud addewid ynglŷn â'r hyn y gallent ei wneud i gefnogi'r gwaith. Serch hynny, roedd gan bobl lawer o syniadau a phethau yr hoffent eu newid. Amlygwyd nad oedd un o'r cyfranogwyr erioed wedi cael ei harian ei hun, hyd yn oed i dalu am banded o de. Newidiodd hynny i gyd, drwy un weithred syml, pan roddwyd ychydig o arian iddi brynu ei phaned ei hun ac roedd hi **'wrth ei bodd oherwydd, yn sydyn, hi oedd yn rheoli hynny'**. Roedd angen penderfynu pa rai o'r themâu allweddol i'w datblygu ymhellach; y prif negeseuon yr hoffai pobl roi gwybod i eraill amdanynt. Penderfynwyd hynny ar y cyd yn seiliedig ar yr hyn yr oedd yn bosib ei sefydlu, gan fanteisio ar sgiliau a gallu'r rheini a oedd yn cymryd rhan a'r amser a oedd ar gael.

Mynd allan, cwrdd â ffrindiau a theimlo'n ddiogel yn y gymuned oedd y blaenoriaethau pennaf. Lansiodd **Lleoedd Diogel** yn sgil yr ymchwil a dyma oedd y prosiect hawsaf ei roi ar waith. Darparwyd hyfforddiant i bobl ofyn i siopau yng nghanol tref leol pam yr oedd angen lle diogel i bobl. Gwahoddwyd siopau adnabyddus, banciau a busnesau lleol i ddiwrnod agored i ddysgu am brosiect Lleoedd Diogel. Gofynnwyd i siopau, banciau a busnesau arddangos sticer Lle Diogel a phe bai rhywun yn teimlo'n bryderus neu'n mynd ar goll ac yn cario cerdyn neu ffob goriadau ac arno 2 rif ffôn cyswllt, gallai'r siop ffonio'r rhifau ar eu rhan. Gweithiodd y prosiect hwn yn dda, wrth i bobl gydweithio mewn tîm a gwneud penderfyniadau gyda'i gilydd bob tro.

Mae Lleoedd Diogel bellach wedi ehangu i ardaloedd eraill yn y rhanbarth sy'n ganlyniad ychwanegol.

← Cliciwch ar y ddolen

Lansiwyd [Siarter Gwent](#) ar 25^{ain} Ebrill 2018 mewn digwyddiad i'w dathlu drwy gerddoriaeth, drama a dangosiad cyntaf ffilm ynglŷn â'r Siarter. Datblygwyd y Siarter gan aelodau o Pobl yn Gyntaf o 5 grŵp gwahanol. Seiliwyd y Siarter ar y 5 thema a'i nod yw annog mudiadau ac unigolion i ymrwymo iddi a'i defnyddio. Bydd grŵp o Archwilwyr y Siarter yn cael eu talu i fonitro a gwirio bod y rheini sydd wedi ymrwymo i'r Siarter yn cadw at ei hamcanion. Darperir gwybodaeth, hyfforddiant a chymorth i bobl ddefnyddio'r Siarter. Prif fwriad y Siarter yw sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.



5. BETH A DDYSGWYD

Amser a gallu: Teimlai Pobl yn Gyntaf Torfaen ei bod yn bwysig cydnabod beth oedd yn bosib iddynt ei gyfrannu at Bywydau Gwell unwaith yr oedd y themâu allweddol a darpar brosiectau wedi'u nodi. Teimlai aelodau ei bod weithiau'n cymryd llawer iawn o amser i gyfweld pobl a'u bod am sicrhau bod ganddynt ddigon o amser i gyflawni eu rôl yn effeithiol, heb fynd yn rhy feichus.

Cydnabod cryfderau a sgiliau pobl: Roedd pwysigrwydd talu pobl yn hanfodol, gan gydnabod y cryfderau a'r sgiliau a gynigiwyd i'r tîm. Roedd y 5 grŵp Pobl yn Gyntaf yn cynnig gwahanol fathau o wybodaeth gan roi egni a dyfnder i'r prosiect. Teimlai pobl eu bod ***'wrth galon y prosiect ac yn cael eu trin yn gyfartal am y cryfderau a'r sgiliau yr oeddynt yn eu cynnig i'r tîm'***.

Helpu pobl i freuddwydio: Roedd rhai pobl a gyfwelwyd yn ei chael yn anodd mynegi neu ddelweddu beth oedd yn bwysig iddynt. Teimlwyd bod arnynt angen ***'caniatâd i freuddwydio'***; gan droi yn hytrach at yr hyn yr oeddynt yn credu yr oedd pobl yn disgwyl iddynt ei ddweud. Fodd bynnag, roedd gan y cyfwelwyr daflenni ***'i'w hysgogi i freuddwydio'*** gyda lluniau o weithgareddau arnynt. Unwaith y dechreuodd un fynegi ei obeithion a'i freuddwydion ysgogwyd eraill i freuddwydio hefyd. Roedd modd i'r cyfwelwyr ofyn cwestiwn pellach i gasglu mwy o wybodaeth unwaith i bobl ddechrau mynegi'r hyn a oedd yn bwysig iddynt ac yr oedd arnynt ei eisiau yn y dyfodol.

Yr ymchwil: Roedd yn bwysig dychwelyd at yr ymchwil, er mwyn ***'dweud beth oedd ei phwrpas'*** a ble y gallent wneud gwahaniaeth yn y 5 thema a sut i ddefnyddio'r data'n effeithiol.

Gweithio fel tîm: Roedd cydweithio a gallu ymddiried yn y Rheolwr Arloesi a Datblygu yn hollbwysig. Mae cydweithredu, cael gwared â chystadleuaeth, gyda gweithwyr proffesiynol a mudiadau yn gollwng eu gafael ac yn rhannu'r pŵer a'r prosesau penderfynu wedi bod yn un o'r nodweddion cyson i grwpiau Pobl yn Gyntaf ledled Gwent ac i gydweithwyr yn yr awdurdod lleol a'r trydydd sector sydd wedi bod yn rhan o Bywydau Gwell.

Mae cydweithio drwy Bywydau Gwell wedi:

'Sicrhau cysylltiadau agosach....ac mae grwpiau Pobl yn Gyntaf yn glosach at ei gilydd nag erioed, mae llawer iawn o weithio ar y cyd yn digwydd'.

6. Canlyniadau'r prosiect

Cyflawnodd Bywydau Gwell sawl canlyniad y tu hwnt i fwriad gwreiddiol y prosiect. Lluniwyd adroddiad terfynol yn amlinellu sut y byddent yn mynd i'r afael â'r 5 thema drwy sefydlu cyfres o brosiectau. **Serch hynny, cyflawnwyd y canlyniadau ychwanegol canlynol hefyd:**

- **Cydgynhyrchu:** Roedd ymgorffori egwyddorion cydgynhyrchu yn un o'r canlyniadau pennaf. Mae'n *'rhoi grym i bobl...tra mae rhai systemau traddodiadol yn cael eu "rhoi ar bobl" ac ni chlywir eu lleisiau ynddynt ac ychydig iawn o bŵer sydd ganddynt (pobl ag anabledd dysgu)'*. Roedd talu pobl o gymorth i symud y pŵer tuag at gydraddoldeb ac i annog pobl i ysgogi newid. Roedd hyn yn *'gam mawr ymlaen...ac yn sicrhau llais cyfartal yn y ffordd o wario'r gyllideb'* yn hytrach na chomisiynu o'r brig i lawr; *'cewch ychydig o arian i wneud hyn ac ychydig o arian i wneud llall'*, sef y profiad blaenorol. Mae'r cydweithio wedi ysgogi ethos cydgynhyrchu ledled Gwent.
- **Newid arferion comisiynu:** Teimlwyd bod dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd o safbwynt comisiynu *'yn gwneud i chi feddwl yn ehangach'* gan roi'r cyfle i ystyried beth sy'n bosib ei gyflawni. Bydd Siarter Gwent yn cael ei chynnwys ym manyleb contractau. Disgwylir i fudiadau sy'n ymgeisio i ddarparu gwasanaethau a gomisiynir ymrwymo i'r Siarter. Un o ganlyniadau pwysig Bywydau Gwell yw comisiynu mewn ffordd wahanol, lle'r hyn sy'n bwysig i bobl oedd y catalydd a datgan, *'dyma'r gwasanaethau yr hoffem i chi eu comisiynu'*, yn hytrach na thrwy fanyleb contract a osodir gan yr awdurdod lleol lle nad oedd dim cydgynhyrchu wrth ddylunio gwasanaethau.
- **Adennill costau llawn:** Wrth dalu Pobl yn Gyntaf am gynnal y cyfweiliadau ac am fod yn Archwilwyr y Siarter trafodwyd sut i gostio eu hamser yn realistig i sicrhau nad oeddynt yn teimlo y cymerwyd mantais arnynt na'n ddiolchgar o *'gael sedd wrth y bwrdd'*. O'r blaen, roeddynt yn darparu hyfforddiant am ddim. Ystyriwyd y gyfradd hyfforddi ar y farchnad a theimlwyd y byddai codi o dan y gyfradd yn dibrisio gwerth eu gwaith neu eu hyfforddiant. Ledled Gwent, cytunodd Grwpiau Pobl yn Gyntaf ar gyfradd hyfforddi i leihau'r gystadleuaeth rhwng grwpiau fel y gellir rhannu gwaith ledled y rhanbarth a'r tu hwnt.
- **Hwb i hyder:** Tyfodd hyder yr aelodau o grwpiau Pobl yn Gyntaf. Teimlent eu bod yn gallu herio eu cydweithwyr proffesiynol pan oeddynt yn credu eu bod yn llunio barn ynglŷn â thystiolaeth yr ymchwil nad oeddynt yn cytuno â hi neu wrth ddewis y themâu allweddol yn unochrog. Tyfodd hyder unigolion wrth gymryd rhan yn y broses gyfweld a dadansoddi. Hwylusodd aelodau Pobl yn Gyntaf gynhadledd yn seiliedig ar y 5 thema allweddol ac roedd ganddynt yr hyder i siarad o flaen y gynulleidfa. Symudodd un aelod o'r tîm i'w chartref ei hun â chymorth a theimlai dau aelod arall o Pobl yn Gyntaf yn fwy hyderus i ddechrau ystyried byw'n annibynnol.

Pwynt Allweddol:

Un o ganlyniadau pwysig y gwaith hwn oedd darganfod pa sgiliau oedd eu hangen, dod o hyd i bobl i lenwi unrhyw fylchau mewn sgiliau, a dysgu sgiliau newydd wrth i ni wneud y gwaith.

Ôl-nodyn:

- Mae No More Barriers wedi dechrau mynd i'r afael â materion cyflogaeth.
- Mae Digi connection yn cysylltu pobl drwy dechnoleg.
- 2 lysgennad Gwent (pobl â phrofiad personol sy'n gyfrifol am sicrhau bod pobl yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau amdanyn nhw).

7. Casgliad

Yn gryno, mae prosiect Bywydau Gwell wedi bod ac yn parhau i fod yn ddylanwadol o ran defnyddio a hyrwyddo dull cydgynhyrchu ledled Gwent. Mae cydgynhyrchu wedi arwain at arferion mwy arloesol wrth gomisiynu cymorth i anableddau dysgu. Yn hanfodol, roedd aelodau o grwpiau Pobl yn Gyntaf, a oedd yn rhan o'r tîm, yn teimlo eu bod ar delerau cyfartal â gweithwyr proffesiynol gan eu bod yn cael eu talu am y gwaith a wnaethant. Roedd penderfynu mewn grŵp sut i wario'r arian roeddynt wedi'i ennill, er budd ymgyrch Pobl yn Gyntaf ledled y sir, yn bwysig iddynt. Roeddynt yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy ac roeddynt yn ymddiried yn yr aelodau proffesiynol o'r tîm a oedd yn hygyrch ac yn ddibynadwy. Roedd yn bwysig bod y Rheolwr Arloesi a Datblygu yn **'arloeswr y gellir ymddiried ynddo'**, a oedd wedi'i drwytho yn egwyddorion cydgynhyrchu ac arferion sy'n canolbwyntio ar y person. Nid yn unig yr oedd aelodau Pobl yn Gyntaf yn ymddiried ynddo, ond roedd cydweithwyr eraill yn ymddiried ynddo hefyd gan roi'r rhyddid iddo helpu i hwyluso datblygiad Bywydau Gwell.

Yn olaf, roedd cydgynhyrchu'r prosesau dylunio ymchwil a chyfweliadau o gymorth **'i bobl freuddwydio ac unwaith i chi sylweddoli bod ar bobl angen cymorth i freuddwydio'** roedd eu syniadau am yr hyn sydd o bwys iddynt yn dod i'r amlwg o ran beth oedd arnynt ei eisiau at y dyfodol ac roedd hyn o gymorth wrth gytuno ar ba ddarnau o waith i fwrw ymlaen â nhw o fewn prosiect Bywydau Gwell. Mae cysyniad Lleoedd Diogel bellach wedi lledaenu at bobl eraill yn y gymuned sy'n agored i niwed drwy ddefnyddio'r cerdyn neu'r ffob goriadau mewn sawl tref yn y rhanbarth.

Diolch i'r bobl ganlynol am rannu o'u profiadau, eu harbenigedd a'u brwdfrydedd wrth ddatblygu'r astudiaeth achos hon:

Kylie Ashill (Pobl yn Gyntaf Torfaen)
Hannah Todd (Pobl yn Gyntaf Torfaen)
Sarah Duke (Pobl yn Gyntaf Torfaen)
Tricia Robinson (Pobl yn Gyntaf Torfaen)
Ann Collis (Barod CIC)
Jim Wright (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen)

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Sally Rees (WCVA), a roddodd yr astudiaeth hon at ei gilydd, drwy ebostio srees@wcva.org.uk